

Fe ymwelsom



Fe ymwelsom ni - Fe ofynnoch chi

Mawrth 2016

Ers mis Medi 2015, mae UNISON wedi bod yn ymweld ag ysgolion ledled Cymru i drafod â chi ynghylch cofrestru staff cymorth â Chyngor y Gweithlu Addysg (EWC) yn Ebrill 2016. Yn ystod yr ymweliadau hyn, fe wnaethom ni addo rhoi diweddariadau rheolaidd i chi a dychwelyd â'r atebion i'ch cwestiynau. Yma, rydym ni wedi llunio atebion i'r ymholiadau mwyaf cyffredin.

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf, trowch at wefan UNISON www.skillsforschools/registration-wales

Neu os oes gennych chi ymholiadau ynghylch eich cofrestriad sy'n ymwneud yn benodol â'r EWC, trowch at www.ewc.wales

1. Faint yw'r ffi cofrestru a sut caiff ei dalu?

Bydd staff cymorth dysgu yn talu £15 y flwyddyn i gofrestru â'r EWC. Bydd y cofrestriad yn dod i rym ar y 1^{af} o Ebrill 2016, felly disgwylir y caiff taliad eleni ei ddidynnu o'ch cyflog ym mis Mawrth. Nid oes rhaid i chi wneud unrhyw beth; caiff ei ddidynnu yn awtomatig. Os yw eich ysgol neu eich awdurdod lleol wedi penderfynu talu'r ffi ar eich rhan, caiff ei ddidynnu o'ch cyflog ac yna caiff ei ad-dalu yn eich cyflog y mis canlynol. Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r ffi.

2. Pa ysgolion / cynghorau sy'n talu'r ffi?

Byddwch chi'n gwybod yn sgil ein hymweliadau fod UNISON wedi bod yn ymgyrchu i berswadio awdurdodau lleol i dalu'r ffi, yn enwedig o gofio eu bod yn talu ffioedd proffesiynol ar ran gweithwyr llywodraeth leol eraill megis gweithwyr cymdeithasol, therapyddion a staff cyfreithiol.

Hyd yn hyn, mae'r cynghorau canlynol wedi cytuno i dalu *eleni*: Cyngor Caerdydd, Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Bro Morgannwg, Cyngor Torfaen, Cyngor Abertawe, Caerphilly < Gwynedd, Cyngor Sir Ddinbych, Powys, Cyngor Rhondda Cynon Taf ac Ysgolion Merthyr. Rydym ni'n disgwyl cyhoeddiadau gan awdurdodau eraill yn fuan, ond mae hyn yn digwydd diolch i bwysau gan yr undeb. Gallwch chi helpu trwy siarad â'ch cynghorwyr lleol ynghylch cofrestru â'r EWC, yn enwedig Aelod y Cabinet dros Addysg.

3. A ellir didynnu'r ffi o'r dreth incwm fel ffioedd proffesiynol eraill?

Dywed yr EWC wrthym ni fod y ffi cofrestru yn gymwys ar gyfer gostyngiad treth. Wrth ddidynnu'r £15 o'ch cyflog ym mis Mawrth, bydd eich cyflogwr yn gweithredu'r gostyngiad treth, sy'n golygu y bydd y ffi wirioneddol oddeutu £12 y flwyddyn OND caiff y £15 llawn ei ddidynnu.

4. Faint fydd athrawon a darlithwyr yn ei dalu - a gaiff y swm hwn ei gymorthdal?

Pennwyd y ffi cofrestru gan Lywodraeth Cymru. Mewn gwirionedd, mae'r ffi i staff cymorth dysgu mewn ysgolion ac AB yn £48, ond diolch i gymhorthdal o £33, caiff hyn ei leihau i £15 – dyna faint fyddwch chi'n ei dalu. Bydd ffi wirioneddol athrawon a gyflogir gan Awdurdod Lleol yn codi i £78, ond unwaith eto, mae cymhorthdal yn ei le (£33) felly mae eu ffi bellach yn £45. Bydd athrawon mewn ysgolion eraill a darlithwyr AB yn talu £45.

5. Pwy sy'n penderfynu a ddylwn i gael fy nghofrestru?

Erbyn hyn, dylai'r awdurdod lleol fod wedi anfon rhestr o enwau'r bobl y dylid eu cofrestru at yr EWC. Bydd eich ALI wedi llenwi taenlen o enwau'r cofrestreion sy'n cyflawni'r diffiniad o weithiwr cymorth dysgu. Rydym ni wedi cyhoeddi'r canllawiau y dylen nhw eu dilyn ar ein gwefan 'skills for school' (skillsforschools.org) sy'n cynnwys rhestr IE - NA yn ymwneud â chofrestru. Dylech chi ddarllen y canllawiau hyn i sicrhau eu bod yn cael eu dilyn.

Mae cymaint o swyddi a rolau yn cael eu cwmpasu gan y diffiniad o 'weithiwr cymorth dysgu', felly roeddem ni'n gwybod y byddai rhai aelodau yn pryderu a ddylai eu hysgol eu cofrestru neu beidio. Os ydych chi'n pryderu am hynny, siaradwch â Phennaeth yr ysgol neu eich rheolwr yn y lle cyntaf. Os oes arnoch chi angen rhagor o gymorth, cysylltwch â'ch cynrychiolydd UNISON neu eich cangen leol. Bydd angen cofrestru gweithwyr a gyflogir gan asiantaethau hefyd. Bydd eich asiantaeth yn gallu rhoi cyngor i chi am hyn.

6. Beth os nad wyf i'n dymuno cofrestru?

Os ydych chi'n cyflawni'r diffiniad, bydd rhaid i chi gofrestru â'r EWC er mwyn gallu parhau i wneud eich gwaith. Yr EWC yw'r corff annibynnol sy'n rheoleiddio ymarferwyr addysg, ac mae'r gofyniad cyfreithiol i gofrestru â'r EWC wedi'i amlinellu yn Neddf Addysg (Cymru) 2014.

7. Beth os wyf i'n credu nad wyf i'n cyflawni'r diffiniad - allaf i apelio?

Hoffai UNISON weithio gyda'r EWC a Llywodraeth Cymru i sicrhau fod y diffiniad yn ymwneud â chofrestru gweithwyr cymorth dysgu yn un cadarn. Rydym ni'n gwybod am achosion lle bydd staff yn gwneud gwaith gweithiwr cymorth dysgu ar brydiau, er nad hynny yw teitl eu swydd mewn gwirionedd. Dan yr amgylchiadau hynny, credwn y dylai eich ysgol wneud un o ddau beth - rhoi'r gorau i'ch defnyddio i wneud gwaith cymorth dysgu NEU os byddwch chi'n cytuno, ailasesu eich swydd i sicrhau fod gennych chi'r disgrifiad swydd priodol i gofrestru ynghyd â'r gyfradd gyflog gywir hefyd.

Cysylltwch â'ch cangen UNISON os yw hyn yn wir yn eich achos chi. Rydym ni'n dymuno amlygu unrhyw achosion o gofrestru amhriodol i'r EWC yn ein cyfarfodydd chwarterol gyda hwy. Mae'r EWC wedi rhoi sicrwydd i ni y byddan nhw'n cadw golwg ar y rolau sy'n cael eu cofrestru i sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn briodol â'r rhestr IE.

Bydd UNISON yn gofyn am asesiad llawn o'r rolau cofrestredig ar ôl mis Ebrill.

8. Beth os na wnaeth fy ysgol fy nghofrestru i erbyn y 1^{af} o Ebrill; a oes gen i swydd o hyd?

Yr ALI sy'n gyfrifol am eich cofrestru chi (eleni), felly nhw sy'n gyfrifol am unioni unrhyw gamgymeriadau trwy gysylltu â'r EWC yn syth. Ni ddylech chi ddiodeff mewn unrhyw ffordd os na fyddan nhw'n eich cofrestru chi mewn pryd ac mae'r EWC yn disgwyl y bydd rhai materion yn dal heb eu datrys oddeutu'r 1^{af} o Ebrill.

9. A fydd arnaf i angen cymwysterau priodol i gofrestru?

Na fydd. Byddwch chi'n cael eich cofrestru oherwydd y swydd rydych chi'n ei gwneud, nid y cymwysterau sydd gennych chi. Mae'n gamsyniad cyffredin fod gofynion 'safonol' o ran cymwysterau staff cymorth dysgu. Yn wir, mae'r darlun yn gymysg iawn - ac eithrio yn achos HLTAs, sy'n gorfod cyflawni safonau penodol i HLTAs i allu gwneud y gwaith hwnnw. Gall eich ysgol fynnu neu beidio bod gennych chi gymwysterau penodol i'ch cynorthwyo i wneud eich gwaith, ond dewis yr ysgol yw hynny ar hyn o bryd. Un o'r problemau o ran diffinio cymwysterau staff cymorth yw'r ffaith fod cymaint o gymwysterau ar gael. Cred UNISON fod angen rhoi trefn ar hyn.

Yn wahanol i athrawon, nid oes unrhyw gymwysterau mynediad safonol yn achos rolau staff cymorth.

10. A wnaif i golli fy swydd os nad oes gennyf i'r cymwysterau 'iawn'?

Gweler uchod. Na wnewch. Cysylltwch ag UNISON os ydych chi'n pryderu am hynny neu wedi cael gwybodaeth wahanol.

11. Beth yw safonau proffesiynol ac a oes gennym ni'r safonau hynny?

Mae safonau proffesiynol yn sylfaen i'r wybodaeth, y sgiliau, y gwerthoedd a'r rhinweddau y mae arnoch chi eu hangen i wneud eich gwaith. Maen nhw'n fwy na dim ond disgrifiad swydd. Dylen nhw fod yr un fath ledled Cymru, ni waeth ym mha ysgol ydych chi'n gweithio ynddi, felly disgwylir i staff sy'n cael eu llywodraethu gan y safonau allu perfformio ar yr un lefel, a dylai hynny sicrhau rhagor o gysondeb ac eglurdeb yn eich rolau.

Yn wahanol i athrawon, nid oes unrhyw safonau proffesiynol i weithwyr cymorth dysgu, ac eithrio'r safonau i HLTAs. Mae UNISON wedi dadlau ers tro byd y dylai cofrestru proffesiynol a safonau proffesiynol fynd law yn llaw.

Mae UNISON wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu safonau proffesiynol i staff cymorth dysgu. Disgwylir y caiff y rhain eu cyhoeddi yn hydref 2016. Yn y cyfamser, fe wnawn ni sicrhau y cewch chi wybodaeth am unrhyw ddatblygiadau.

12. Beth yw barn UNISON ynghylch cofrestru?

Mae elfennau positif a negyddol yn ein barn ni - mae cofrestru yn gydnabyddiaeth eich bod chi'n weithiwr proffesiynol ac yn haeddu cael ei trin felly, rhywbeth rydym ni wedi'i ddadlau ers tro byd. Trwy gyfrwng eich undeb, byddwch chi'n gallu ei ddefnyddio fel dull o ddadlau am well cydnabyddiaeth a gwell cysondeb yn y gwaith a wnewch chi. Dylai cofrestru sicrhau gwell mynediad at ddatblygu.

Bydd cofrestru hefyd yn cynyddu risgiau a chyfrifoldebau - byddwch chi'n llawer mwy atebol am eich arferion gwaith a'ch gweithredoedd, oherwydd bydd yr EWC yn gallu codi cwestiynau ynghylch eich ymddygiad a'ch gallu. Yn ychwanegol, mae UNISON yn wastad wedi dadlau na ddylai staff ar gyflogau isel a gyflogir yn ystod tymor yr ysgol yn unig orfod talu am gost cofrestru.

Mae UNSAIN am ddefnyddio cofrestru i sicrhau cysondeb a thegwch o ran cyflog a rolau mewn ysgolion ledled Cymru gyfan.

13. Beth fyddaf i'n ei gael pan fyddaf i'n cofrestru?

Bydd yr EWC yn anfon llythyr atoch chi ym mis Chwefror yn cadarnhau eu bod nhw wedi cael eich manylion gan eich ALI, a llythyr ychwanegol ym mis Ebrill yn cadarnhau eich bod chi wedi'ch cofrestru â hwy. Yna, byddwch chi'n gallu trefnu i gael mynediad at eich cofnod trwy fewngofnodi i wefan EWC trwy gyfrwng MyEWC. Yno, gallwch chi wirio eich cofnod a gweld y Pasbort Dysgu Proffesiynol sy'n gofnod (personol) ar-lein o'ch datblygiad. Bydd y fersiwn gwell o'r Pasbort ar gael i chi ym mis Medi. Chwiliwch wefan EWC i gael rhagor o wybodaeth am y Pasbort Dysgu Proffesiynol i staff cymorth dysgu.

14. Beth all y cyhoedd ei weld ar wefan EWC?

Gall y cyhoedd chwilio'r wefan am wybodaeth gyfyngedig benodol amdanoch chi, megis eich enw, categori'r cofrestrriad, pa un a oes gennych chi unrhyw orchmynion disgyblu byw gan EWC ac enw'r ysgol ble'r ydych chi'n gweithio. Y ffordd orau o wybod beth all y cyhoedd ei weld yw troi at y wefan a chwilio am eich manylion.

Gallwch chi weld (a gwirio) eich cofnod llawn trwy MyEWC.

15. Pwy all gyfeirio achosion at yr EWC?

Mae gan gyflogwyr ac asiantaethau sy'n cyflogi pobl gofrestredig gyfrifoldeb i gyfeirio achosion a allai fod o ddiddordeb i'r EWC. Gall y cyhoedd hefyd gyfeirio ymarferwyr at yr EWC, ond yn y lle cyntaf, bydd yr EWC yn ymholi i weld a gafodd y mater ei godi ar lefel yr ysgol, i geisio dileu cwynion maleisus.

16. Beth all UNISON ei wneud i mi os caf i fy nghyfeirio at yr EWC?

Mae angen i bobl gofrestredig fod yn aelodau o undeb. UNISON yw'r undeb mwyaf i staff cymorth yn y Deyrnas Unedig, ni sydd â'r llais cryfaf a'r dylanwad mwyaf ar faterion sy'n effeithio ar staff cymorth dysgu. Mae tair undeb 'gydnabyddedig' yn unig i staff cymorth. Yn ychwanegol, mae'n bwysig bod gan athrawon a staff cymorth wahanol undebau i gynrychioli eu buddiannau penodol. Er byddwch chi'n gweithio fel tîm yn y dosbarth, mae eich rolau yn wahanol iawn, felly mae angen i chi sicrhau rhywfaint o wrthrychedd o ran cynrychiolaeth gan undeb. Dylai undebau fod yn glir ynghylch pwy maen nhw'n ei gynrychioli fel na fyddant yn cael eu tanseilio gan wrthdaro rhwng buddiannau athrawon a rhai gweithwyr cymorth.

Os cewch chi lythyr gan yr EWC, cysylltwch ag UNISON yn syth. Cyn belled ag y byddwch chi'n aelod ers dros bedair wythnos, byddwn ni'n darparu cynrychiolaeth a chymorth proffesiynol yn ystod pob cam o broses Priodoldeb i Ymarfer yr EWC. Peidiwch â disgwyl nes bydd gennych chi broblem cyn ymuno, oherwydd efallai na fyddwn ni'n gallu gwneud llawer i'ch helpu chi.

17. Beth yw'r Cod Ymddygiad ac Arfer Proffesiynol a ble allaf i gael gafael arno?

O fis Ebrill 2016 ymlaen, byddwch chi'n cael eich llywodraethu gan God Ymddygiad ac Arfer Proffesiynol yr EWC yn union fel mae athrawon yn cael eu llywodraethu ganddo ar hyn o bryd. Mae'r un cod yn llywodraethu'r holl gofrestreion, ac mae ar gael ar wefan EWC a gwefan 'skills for schools' UNISON.

Mae'r cod yn amlinellu safonau ymddygiad ac ymarfer disgwylidig y dylech chi gadw atynt fel cymhorthydd cymorth dysgu. Gallai torri'r cod arwain at eich cyfeirio chi at yr EWC yn unol â'r hyn a amlinellir uchod. Yn yr achosion gwaethaf, gallai enghraifft ddifrifol o dorri'r cod arwain at eich gwahardd o'r proffesiwn ac ni fydddech chi'n gallu gweithio mewn lleoliad addysgol yng Nghymru. Gallai enghreifftiau llai difrifol o dorri'r cod arwain at eich atal dros dro rhag ymarfer fel cymhorthydd cymorth dysgu.

Mae cadw at god hefyd yn effeithio ar rai gweithredoedd y tu allan i'r ysgol, er enghraifft, beth fyddwch chi'n ei ddweud ar gyfryngau cymdeithasol. Mae gennych chi lefel uwch o atebolrwydd i'r 'proffesiwn' cyfan hefyd, ac felly mae dyletswydd arnoch chi i roi gwybod am unrhyw gamymddwyn.

Gall UNISON redeg gweithdy byr ynghylch y Cod Ymddygiad ac Arfer Proffesiynol. Holwch eich cangen neu eich trefnydd os oes gennych chi ddiddordeb. Gallwn ni hefyd gynnig cynghorion ymarferol ynghylch eich diogelwch digidol i sicrhau na chewch chi eich dal ar fai yn anfwriadol.

18. Beth arall mae UNISON yn ei wneud i helpu staff cymorth dysgu?

Gellir defnyddio cofrestru proffesiynol i amlygu rhai o'r materion sy'n wynebu staff cymorth mewn ysgolion, megis anghysonderau o ran rolau, graddfeydd, mynediad at hyfforddiant a chydabyddiaeth. Mae UNISON yn ymgyrchu am gorff cenedlaethol i staff cymorth ysgolion er mwyn gwella cyflogau ac amodau gwaith.

- Rydym ni'n cynnig gweithdy UNISON ynghylch Cod Ymddygiad ac Arfer Proffesiynol yr EWC a sut mae hynny'n effeithio arnoch chi. Gellir rhedeg y gweithdy yn yr ysgol neu yn rhywle arall. Holwch eich cangen neu eich trefnydd os oes gennych chi ddiddordeb.
- Rydym ni'n rhedeg cyfres o sesiynau dysgu Dydd Sadwrn am ddim ledled Cymru ynghylch materion rydych chi wedi'u hamlygu i ni fel rhai pwysig, megis rheoli ymddygiad, llythrennedd digidol, cau'r bwlch a sicrhau fod llythrennedd yn hwyl. Ychwanegwch eich enw at gofrestr un o'r cyrsiau!
- Dewch yn gynrychiolydd UNISON yn eich ysgol. Oherwydd y galw sylweddol, rydym ni bellach yn rhedeg cyrsiau penodol ar gyfer cynrychiolwyr UNISON mewn ysgolion ledled Cymru. Dyma gwrs hyfforddiant i gynrychiolwyr wedi'i deilwra'n benodol at amgylchedd ysgolion. Bod yn gynrychiolydd yw'r ffordd orau o gadw cysylltiad â'r undeb a sicrhau y cewch chi wrandawriad. Holwch eich cangen neu eich trefnydd i gael rhagor o wybodaeth.
- Cyfranogwch yn un o'r fforymau ysgolion sy'n cael eu rhedeg yn eich ardal fel gallwch chi ddweud eich dweud.
- Cofiwch sicrhau fod eich manylion wedi'u diweddarau i gael ein bwletinau rheolaidd ynghylch cofrestru proffesiynol a phapurau briffio am faterion allweddol megis cyfrifoldebau'r gwahanol raddfeydd a chyflog yn ystod tymor yr ysgol yn unig.

MAE AR STAFF COFRESTREDIG ANGEN UNDEB - YMUNWCH AG UNISON

Ffoniwch [0800 171 2193](tel:08001712193) i ganfod eich cangen leol neu trowch at unison.org